# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/ Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 30 Medi 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 292(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Cwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

(60 munud)

**NDM7401** **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Senedd Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ei Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Gorffennaf 2020.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Medi 2020.

## 6 Dadl Aelod o dan Rheol Sefydlog 11.21 (iv) Incwm Sylfaenol Cyffredinol

(60 munud)

**NDM7384** **Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) y niwed y mae tlodi'n ei wneud i gyfleoedd bywyd ac nad yw gwaith bellach yn llwybr gwarantedig allan o dlodi;

b) bod y pandemig wedi gorfodi mwy o bobl i mewn i dlodi gyda niferoedd cynyddol o breswylwyr yn gorfod troi at gymorth elusennol fel banciau bwyd;

c) yr oedd twf y DU, hyd yn oed cyn y pandemig, yn wael a'n bod yn wynebu'r her gynyddol o awtomeiddio, sy'n gosod niferoedd cynyddol o swyddi mewn perygl;

d) bod incwm sylfaenol cyffredinol yn rhoi mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau, yn lleddfu tlodi ac, yn ogystal, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl;

e) y byddai incwm sylfaenol cyffredinol yn creu swyddi ac yn annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi;

f) bod incwm sylfaenol cyffredinol yn rhoi'r lle i bobl gymryd mwy o ran yn eu cymuned a chefnogi eu cymdogion.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i sefydlu treial incwm sylfaenol cyffredinol yng Nghymru;

b) i lobïo Llywodraeth y DU am gyllid i sefydlu incwm sylfaenol cyffredinol ledled Cymru.

**Cefnogwyr**

Adam Price

Alun Davies

Bethan Sayed

Dai Lloyd

Dawn Bowden

Helen Mary Jones

Huw Irranca-Davies

Jenny Rathbone

John Griffiths

Leanne Wood

Mick Antoniw

Mike Hedges

Rhianon Passmore

Siân Gwenllian

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Gwerth am Arian i Drethdalwyr

(60 munud)

**NDM7404** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod rheoli arian trethdalwyr yn llwyddiannus yn dibynnu ar amcanion clir, llywodraethu da a gwaith craffu effeithiol.

2. Yn gresynu at y ffaith bod dros £1 biliwn wedi'i wastraffu gan Lywodraethau olynol Cymru ar bolisïau di-rym, prosiectau y cefnwyd arnynt a gorwario yn erbyn cyllidebau ers 2010.

3. Yn gresynu ymhellach at y ffaith y caniatawyd i bolisïau Cymreig a allai fod wedi bod yn rhai da edwino oherwydd diffyg cefnogaeth a phenderfyniadau a wnaed gan ganolbwyntio ar y tymor byr.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu swyddfa drawsadrannol sydd wrth wraidd y llywodraeth i sbarduno newid diwylliant, herio'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei ddarparu i drethdalwyr.

**Gwelliant 1** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod rheoli arian trethdalwyr yn llwyddiannus yn dibynnu ar amcanion clir, llywodraethu da a gwaith craffu effeithiol ac yn cydnabod bod economeg cyni yn cynnig gwerth gwael am arian.

2. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi tanariannu a / neu wedi rhwystro nifer o brosiectau, gwasanaethau a seilweithiau heb eu datganoli yng Nghymru, gan gynnwys ymchwil a datblygu, rheilffyrdd, cysylltiad band eang ac ynni'r llanw ers 2010.

3. Yn croesawu'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni polisïau arloesol Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pobl Cymru, gan gynnwys: presgripsiynau am ddim, Twf Swyddi Cymru, system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau, un llwybr canser, y cynnig gofal plant, dyblu'r terfyn cyfalaf, Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Gronfa Cadernid Economaidd.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i roi mwy o hyblygrwydd cyllidol i Lywodraeth Cymru er budd rheoli cyllidebau yn dda

*Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3  yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo'n unol â hynny:

Yn credu bod methiant Llywodraeth Cymru i gyflawni ei pholisïau wedi helpu i gyfrannu at y diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth sydd wedi golygu na chymerodd dros hanner etholwyr Cymru ran yn etholiadau'r Senedd.

**Gwelliant 3** Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw am refferendwm cyfrwymol ynghylch a ddylid cadw neu ddiddymu llywodraeth a senedd datganoledig Cymru, yn sgil methiannau Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 4** Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau gwerth am arian drwy:

a) cydnabod bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu gwastraffu yn y trydydd sector preifat, drwy ddyblygu a rheoli pendrwm;

b) democrateiddio'r gwasanaethau a ddarperir drwy ailgyfeirio cyllid i lywodraeth leol yng Nghymru.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7403** Rhun ap Iorwerth (Ynys)

Yr heriau a’r cyfleon i economi Môn: Cyfle i fwrw golwg eang ar economi Môn, yn cynnwys pryderon difrifol Brexit, yr heriau a’r cyfleon ym maes ynni, a sut i greu

cynaliadwyedd cymunedol ac amgylcheddol wrth greu cyfleon economaidd newydd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Hydref 2020

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 23/09/2020 i'w hateb ar 30/09/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Addysg

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ55603

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2020, a'r ystyriaethau ar gyfer haf 2021?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

2 OQ55616

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu addysg ôl-16 yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

3 OQ55597

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i ddysgwyr sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref yng Nghymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

4 OQ55617

**(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi iechyd meddwl myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ55604

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau nad yw addysg plant a phobl ifanc yn cael ei darfu arni yn ystod y chwe mis nesaf?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ55607

**(e)**

Pa asesiad diweddar sydd wedi'i wneud o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

7 OQ55588

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gynnwys Saesneg yn Adran 3(2) o'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

8 OQ55586

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr achosion o blant yn Islwyn yn cael eu hanfon adref o'r ysgol i hunanynysu ar ôl cael canlyniad positif mewn prawf ar gyfer COVID-19?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

9 OQ55596

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i leihau faint o amser ysgol a gaiff ei golli o ganlyniad i COVID-19?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ55611

**(e)**

Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar unwaith i leihau nifer yr ysgolion uwchradd mewn mesurau arbennig?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

11 OQ55606

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch trefniadau cludiant i'r ysgol yn ystod argyfwng y coronafeirws?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

12 OQ55593

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol yng Ngogledd Cymru?

# Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

1 OQ55615

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai a oedd ar restr warchod gynt yn sgil y cyfyngiadau COVID-19 diweddaraf yng Nghymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**2** OQ55595

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen frechu rhag y ffliw y gaeaf hwn?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**3** OQ55587

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ailddechrau gwasanaethau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**4** OQ55618

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am farwolaethau o ganlyniad i COVID-19 o fewn ysbytai yn y gogledd?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**5** OQ55583

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â phroblem unigrwydd ymhlith pobl hŷn?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

**6** OQ55601

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith cyfyngiadau coronafeirws ar iechyd meddwl a lles yng Nghymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**7** OQ55605

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfyngiadau symud COVID-19 yn Rhondda Cynon Taf?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**8** OQ55602

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefniadau llywodraethu a rheoli prosiectau cyfalaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

9 OQ55592

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y nifer sy'n manteisio ar apwyntiadau meddygon teulu ar-lein yng Ngogledd Cymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

10 OQ55608

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gynlluniau i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd ar safle'r Northern Meadows yng Nghaerdydd?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

11 OQ55609

**(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella capasiti'r GIG wrth i ni nesáu at y cynnydd yn y galw sy'n digwydd yn y gaeaf?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

12 OQ55590

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ardaloedd gwledig Cymru i atal trosglwyddo cymunedol COVID-19?